Cynllun Datblygu Unigol (CDU)

Y Cynllun Datblygu Unigol (CDU)

Mae Llywodraeth Cymru yn aynnig system newydd, symlach a mwy ymatebol o fodloni Anghenion Ychwanegol plant a phobl ifanc. Mae'r Cynllun Datblygu Unigol (CDU) yn ganolog i'r cynigion ar gyfer newid y ffordd yr ydym yn asesu ac yn bodloni Anghenion Addysgol Arbennig yng Nghymru. Rhagwelir y bydd y CDU yn disodli'r Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig presennol dros gyfnod graddol ac y bydd yn cael ei ddefnyddio gan ddysgwyr o **0** i **25** oed.

Bydd y **CDU** yn **gynllun unigol** ac iddo fformat cyffredin a gaiff ei ddatblygu gan ddefnyddio dull cynllunio person-ganolog. Bydd pob CDU yn cynnwys **Cynllun Gweithredu** a'r dystiolaeth ar gyfer y gweithredoedd. Bydd yn annog gwaith allweddol lle bo angen ac yn defnyddio prosesau hyblyg. Gallai'r CDU ddisodli neu integreiddio'r holl gynlluniau unigol eraill (e.e. y Cynllun Addysg Unigol (CAU), y Cynllun Ymddygiad Unigol (CYU), y Cynllun Addysg Personol (CAP) ar gyfer plant sy'n derbyn gofal (PDG) a Chynlluniau Iechyd hyd yn oed.

Bydd CDU yn fwy hygyrch ac yn haws i'w ddiweddaru er mwyn bodloni anghenion newidiol y plant a'r bobl ifanc.

Pwy fydd yn derbyn CDU?

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig bod unrhyw blentyn neu berson ifanc (0-25) a chanddo anghenion ychwanegol a bod angen cefnogaeth arno sy'n 'wahanol neu'n ychwanegol i'r hyn a ddarperir fel rhan o'r cwricwlwm arferol neu wahaniaethol' yn derbyn CDU.

Bydd hyn yn cynnwys dysgwyr sydd ar hyn o bryd yn rhan o Weithredu yn yr Ysgol / Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar, Gweithredu yn yr Ysgol (a Mwy) / Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar (a Mwy) a'r sawl a chanddynt Ddatganiad o'u Hanghenion Addysgol Arbennig, a chanddynt anghenion meddygol neu a chanddynt anabledd.

Bydd yr holl blant a phobl ifanc a chanddynt Ddatganiad cyfredol yn parhau i gael yr hawl i gael CDU.

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig symud oddi wrth arwain gyda gwasanaethau addysg i bartneriaeth lawn rhwng addysg, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. I bwysleisio'r newid hwn i ddull cynllunio person-ganolog cyfannol, newidir y term 'Anghenion Addysgol Arbennig' i '**Anghenion Dysgu Ychwanegol**'. I atgyfnerthu'r dull aml-asiantaeth hwn, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gosod **'dyletswydd i gydweithredu'** ar ysgwyddau cyrff perthnasol o safbwynt darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Sut caiff y CDU ei ddatblygu?

Unwaith caiff angen plentyn neu berson ifanc i gael CDU ei nodi, dechreuir y broses gan y Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADYCo) fydd ef/hi fel arfer. Gallai hefyd fod yn Ymwelydd Iechyd/Person proffesiynol sy'n arwain mewn canolfannau Blynyddoedd Cynnar. Bydd plant a phobl ifanc, rhieni a'r holl bobl broffesiynol briodol i gyd yn cyfrannu gwybodaeth berthnasol. Trefnir cyfarfod gan y Cydlynydd ADY, a bydd y cyfarfod hwn yn cynnwys y plentyn neu'r person ifanc, rhieni a'r holl bobl broffesiynol briodol i gyfrannu at y CDU. Pan fydd yn bosib, bydd y plentyn neu'r person ifanc yn helpu i benderfynu pwy fydd yn mynd. Bydd y **Gwasanaeth Partneriaeth Rhieni (PPS)** ar gael i roi gwybodaeth, cyngor a chymorth bob cam o'r broses. Bydd y cyfarfod yn dilyn dull person-ganolog ac yn llunio **cynllun gweithredu a gytunir** a gaiff ei **adolygu unwaith y flwyddyn, man lleiaf** neu cyn hynny pe bai gofyn.

Sut olwg fydd ar CDU?

Bydd y CDU yn cynnwys:

- Gwybodaeth fywgraffyddol am eich plentyn, eich manylion cyswllt chi ac unrhyw bobl broffesiynol briodol.
- Caiff eich safbwyntiau chi a safbwyntiau eich plentyn eu cofnodi ar **'broffil un dudalen'**, yn manylu ar yr hyn y mae pawb yn ei '**hoffi ac yn ei edmygu'** am y plentyn neu'r person ifanc, '**yr hyn sy'n bwysig i'**r plentyn neu'r person ifanc a '**sut i gefnogi**'r plentyn neu'r person ifanc nawr ac yn y dyfodol. Lle bo'n bosib, dylai'r plentyn neu'r person ifanc fod yn hapus gyda'r cynnwys.
- Bydd **cynllun gweithredu** yn cofnodi'r '**hyn sy'n gweithio'** a'r '**hyn nad yw'n gweithio'** ac fe fydd yn amlinellu unrhyw gefnogaeth sydd ei hangen ar y plentyn neu'r person ifanc i gyflawni ei nodau. Bydd hyn yn cynnwys yr hyn a gaiff ei gyflwyno, gan bwy a pha mor aml y caiff ei gyflwyno. Bydd hefyd yn cynnwys pwy fydd yn gyfrifol am gael mynediad i'r gefnogaeth a'r dyddiad y caiff y cynllun ei adolygu.

Ychwanegir y wybodaeth at yr CDU lle y bydd yn weladwy ac yn hygyrch i'ch teulu a phobl broffesiynol yn unig gyda chaniatâd.

Hoffi ac edmygu

Dyma'r man cychwyn ar gyfer y proffil un dudalen. Gall yr adran hon gynnwys ffotograffau a darluniau a.y.b.

Beth yw 'bwysig i' a 'sut i gefnogi'

Bydd hyn yn cynnwys y pethau y mae'r person am iddynt ddigwydd yn y dyfodol yn ogystal â phethau sy'n digwydd eisoes a'r hyn y mae pawb yn credu sy'n bwysig ar gyfer y person.

Beth sy'n gweithio? Beth sydd ddim yn gweithio?

Beth sy'n gweithio, yr hyn nad yw'n gweithio, o bersbectif y plentyn neu'r person ifanc, o bersbectif y teulu, o bersbectif pobl eraill e.e. yr ysgol, therapydd neu bobl broffesiynol eraill. Trafodir pethau nad ydynt yn digwydd i'r plentyn neu'r person ifanc, gan gynnwys gwahaniaethau barn rhwng pobl sydd ynghlwm ym mywyd y person ac unrhyw beth nad yw'n gwneud synnwyr gan gynnwys unrhyw beth ychwanegol neu wahanol y gall fod ei angen ar y plentyn neu'r person ifanc ac yna, fe'i hadlewyrchir yn y Cynllun Gweithredu.

Cynllun Gweithredu

Bydd hyn yn cynnwys yr hyn sydd angen ei wneud, gan bwy, pryd caiff ei gwblhau, meini prawf llwyddiant a phryd y caiff ei adolygu. Ychwanegir y wybodaeth hon i'r CDU ar y we.

beth	*pwy*	*pryd*	*meini prawf llwyddiant*	*dyddiad adolygu*
Beth sydd angen ei wneud?	Pwy fydd yn ei wneud?	Erbyn pryd y caiff ei wneud?	Sut fyddwn yn gwybod a yw'n llwyddiannus?	Pwy fydd yn ei wirio a phryd?

Sut fyddwn yn gwybod a yw CDU yn llwyddiannus?

Rhagwelir y bydd pob CDU yn cynnwys **cynllun gweithredu** clir a gaiff ei adolygu o leiaf yn flynyddol. Bydd y CDU yn dasg gydweithredol rhwng y bobl sy'n adnabod y plentyn neu'r person ifanc orau, gan gynnwys pobl broffesiynol briodol; dylai hyn arwain at gonsensws barn a chynllun gweithredu priodol gyda meini prawf clir am lwyddiant. I'r plant neu'r bobl ifanc hynny a chanddynt anghenion sylweddol neu gymhleth, diogelir yr hawl i wasanaethau a darpariaeth.

Pan na cheir cytundeb, bydd y plentyn neu'r person ifanc neu ei deulu yn medru cofrestru'r anghytundeb hwn yn ffurfiol gyda'r Awdurdod Lleol. Os yw hyn yn digwydd, bydd unrhyw sefydliadau, ysgolion, sefydliadau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a.y.b. yn rhannu'r cyfrifoldeb o ddatrys yr anghytundeb gyda'r plentyn neu'r person ifanc a'i deulu. Bydd plant a phobl ifanc a'u teuluoedd yn cael yr hawl i apelio i'r Tribiwnlys ADY.

Bydd **SNAP Cymru**, prif Wasanaeth Partneriaeth Rhieni Cymru, ar gael i gefnogi teuluoedd drwy gydol y broses, gan roi cyngor, gwybodaeth a chefnogaeth a lle bo gofyn, bydd cyfryngwyr sydd wedi'u hyfforddi yn hwyluso prosesau datrys anghytundebau ffurfiol ac annibynnol. **Cynhwysir y fframwaith deddfwriaethol, gan gynnwys canllaw arfer da a phrosesau ar gyfer datrys anghytundebau, mewn Cod Ymarfer Anghenion Dysgu Ychwanegol – i'w gynhyrchu gan Lywodraeth Cymru yn y misoedd wedi hynny.**

Ynghylch SNAP Cymru

Mae SNAP Cymru yn cyflwyno'r Gwasanaeth Partneriaeth Rhieni yng Nghymru ac mae'n cynnig gwybodaeth gywir a chyngor a chefnogaeth sy'n ddi-duedd, a gweithwyr allweddol ar gyfer teuluoedd plant a phobl ifanc a chanddynt, neu y gall fod ganddynt Anghenion Addysgol Arbennig a/neu anabledd. Mae gwasanaeth SNAP Cymru yn rhad ac am ddim, yn gyfrinachol ac yn ddi-duedd. Mae SNAP hefyd yn cynnig gwasanaeth datrys anghytundebau ffurfiol ac eiriolaeth annibynnol yn seiliedig ar faterion i blant a phobl ifanc.

Am gefnogaeth neu wybodaeth bellach, cysylltwch â'n:

Llinell gymorth ar 0845 120 3730
neu ewch i'n gwefan:
www.snapcymru.org